

## **Grŵp Clwstwr Busnes Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Canolbarth Cymru. (y Grŵp)**

### **Hysbysiad Preifatrwydd**

Darllenwch yr hysbysiad preifatrwydd canlynol mewn aliniad â'r Cylch Gorchwyl.

#### **Y math o wybodaeth bersonol a gasglwn.**

Rydym ni'n casglu a phrosesu'r wybodaeth ganlynol ar hyn o bryd:

- Enw eich Busnes / Sefydliad a'r cyfeiriad, enw cyswllt a chyfeiriad e-bost.

#### **Sut ydym ni'n cael y wybodaeth bersonol a pham ei bod gennym ni.**

Fel aelod o'r Grŵp Clwstwr Busnes, caiff y rhan fwyaf o wybodaeth bersonol ei darparu'n uniongyrchol gennych chi am y rhesymau canlynol:

- Dibenion cyfathrebu – fel modd uniongyrchol o dderbyn gwahoddiadau calendr electronig, e-byst, papurau cyfarfod a rhannu gwybodaeth berthnasol ymhlith y Grŵp.
- Caiff yr enw cyswllt a'r cyfeiriad e-bost rydych yn eu darparu gael eu cynnwys a'u gweld gan aelodau eraill y Grŵp ar bob gwahoddiad cyfarfod calendr a'u defnyddio ym mhob gohebiaeth grŵp.

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda trydydd partïon sy'n cefnogi ein hamcanion fel Llywodraeth Cymru, Siambrau Cymru, Gyrfa Cymru a Ffederasiwn Busnesau Bach.

O dan Reoliadau GDPR DU, dyma'r sail gyfreithiol yr ydym yn dibynnu arni ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon:

- **Mae gwybodaeth yn cael ei defnyddio i berfformio tasg er budd y cyhoedd.**
- Os oes gennych unrhyw bryderon neu os hoffech optio allan o gyfathrebiadau'r dyfodol e-bostiwch [midwalesrsp@powys.gov.uk](mailto:midwalesrsp@powys.gov.uk)

#### **Sut ydym ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol.**

**Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Canolbarth Cymru** yn gweithio mewn partneriaeth â rhaglen Tyfu Canolbarth Cymru, Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a Chyngor Sir Powys (CSP). Bydd data yn cael ei gadw gan CSP a dim ond staff awdurdodedig yn CSC a CSP fydd yn cael mynediad at y wybodaeth a gedwir.

Byddwn ni'n cadw eich manylion cyswllt yn ôl y disgrifiad uchod tra fyddwch chi'n aelod o'r "Grŵp".

Os fyddwch chi'n gadael y grŵp a ddim am dderbyn unrhyw ohebiaeth bellach oddi wrth PSRh optiwch allan drwy e-bostio: [midwalesrsp@powys.gov.uk](mailto:midwalesrsp@powys.gov.uk). Yna, byddwn ni'n cael gwared ar eich data o'r gweinydd o fewn un mis.

## **Eich hawliau data.**

O dan gyfraith diogelu data, mae hawliau gennych yn cynnwys:

**Eich hawl am fynediad** – Mae hawl gennych ofyn i ni am gopiâu o'ch gwybodaeth bersonol.

**Eich hawl am gywiriad** – Mae hawl gennych ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol sy'n anghywir yn eich barn chi. Mae hefyd gennych yr hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth sy'n anghyflawn yn eich barn chi.

**Eich hawl i ddilead** – Mae hawl gennych ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

**Eich hawl i gyfyngu prosesu** - Mae hawl gennych ofyn i ni gyfyngu prosesu eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

**Eich hawl i wrthwynebu prosesu** – Mae hawl gennych wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

**Eich hawl i gludadwyedd data** – Mae hawl gennych ofyn ein bod ni'n trosglwyddo'r wybodaeth bersonol wnaethoch ei rhoi i ni i sefydliad arall, neu i chi, o dan amgylchiadau penodol.

Nid yw'n ofynnol i chi dalu unrhyw dâl am ymarfer eich hawliau. Os fyddwch chi'n gwneud cais, bydd un mis gennym i ymateb i chi.

Cysylltwch â ni: [midwalesrsp@powys.gov.uk](mailto:midwalesrsp@powys.gov.uk) os ydych am wneud cais.

Gallwch hefyd gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anhapus gyda sut yr ydym wedi defnyddio eich data.

Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Rhif llinell gymorth: 0303 123 1113

Gwefan ICO: <https://www.ico.org.uk>